2. Coed Llwyn Rhyddid

Hensol, Bro Morgannwg

Cyfeiriadau Grid	Prif fynedfa: ST 041778, Maes parcio: ST 043778
Statws	
Daliadaeth	Prynwyd y rhydd-ddaliadaeth fis Chwefror 1990.
Maint	4.9 he (12.1 erw)
Lleoliad a Nodiadau Mynediad	Filltir i'r gogledd o Goedwig Hensol, i'r gorllewin o'r ffordd i Westy a Chlwb Golff Bro Morgannwg. Gan ei bod yn hawdd iawn tarfu ar y crehyrod, dim ond ar ddyddiau gwylio wedi'u trefnu ar gyfer grwpiau y gellir ymweld â'r warchodfa hon yn ystod y tymor magu (canol Ionawr tan fis Awst). Gellir cyrraedd y gamfa yn y gornel dde-ddwyreiniol drwy'r giât ar y dde ym mhen draw trac y fferm, y giât agosaf at y ffermdy. Fel dewis arall, mae llwybr troed cyhoeddus drwy Home Farm yn arwain at giât yn y gornel ogleddol. Sicrheir mynediad ar hyd llwybrau caniataol ac maent yn cynnwys pontydd bychain a chamfeydd yma ac acw.
Cludiant cyhoeddus	Mae'r arosfannau bws agosaf filltir i ffwrdd ar y llwybrau i Lanbedr-y-fro; yng Nghoedwig Hensol o'r Bontfaen ac yn Hensol o Bontyclun.

Disgrifiad: Coetir gymysg eilradd sy'n gartref i grehyrfa.
Mae Coed Llwyn Rhyddid yn goetir gymysg a blannwyd yn rhannol ryw dro yn ystod y can mlynedd a hanner diwethaf. Mae'r canopi'n cynnwys coed Derw, Ynn, Ffawydd a chymysgedd o gonwydd, Pinwydd yr Alban yn bennaf, gydag isdyfiant o Gelyn, Cyll a Rhododendron. Mae haen berlysiau'r coetir yn cynnwys Blodau'r Gwynt (3-5) a Chlychau'r Gog (4-6). Mae'r ffosydd draenio'n gartref i Eglyn Cyferbynddail (4-7). Ymhlith y planhigion eraill a welir yma mae Afalau Surion Bach (5), Gwlydd Melyn Mair (5-9), Hesg y Coed (5-6) a Suran y Coed (4-5).

O safbwynt cadwriaethol, mae'r goedwig yn bwysig oherwydd yn y 1990'au roedd y grehyrfa a welir yma y drydedd fwyaf yng Nghymru gyda rhyw 35 o barau. Yn 2005, cofnodwyd 28 pâr. Mae crehyrod yn nythu wedi cael eu cofnodi yn ardal Hensol ers 1872 o leiaf. Gellir gweld y crehyrod sy'n nythu ar frig coed Pinwydd yr Alban o'r maes parcio ar ochr y ffordd, gerllaw'r trac sy'n rhoi mynediad i'r fferm.

Fel rheol, mae'r crehyrod yn dychwelyd i'r goedwig tua diwedd mis Ionawr. Mae'r cylch magu'n cymryd tan fis Gorffennaf, pryd bydd y cywion yn magu plu, ac mae'n ddiwedd mis Awst erbyn i'r crehyrod adael y coed.



Nodau Rheoli: Gwarchod y grehyrfa drwy gyfyngu ar aflonyddwch a sicrhau olyniaeth o safleoedd nythu yn y coed Pinwydd yr Alban aeddfed. Gwella haen berlysiau'r coetir drwy gael gwared ar y Rhododendron ymledol.

Amser da i ymweld	
Chwefror – Gorffennaf	Rehyrod Glas yn nythu, i'w gweld o'r tu allan i'r warchodfa
Hydref - Tachwedd	Lliwiau'r hydref